# PWYLLGOR ARCHWILIO 14/7/16

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Trevor Edwards (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Angela Russell (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen J. Davies, Tom Ellis, E. Selwyn Griffiths, John B. Hughes, Charles Wyn Jones, Sion Wyn Jones, Michael Sol Owen a W. Tudor Owen.

**Aelod Lleyg:** John Pollard

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Ffion Madog Evans (Rheolwr Cyllid - Adnoddau a Chorfforaethol), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Aled Ll. Evans, Dilwyn Morgan, John Pughe Roberts, Gethin Glyn Williams a John Wyn Williams.

## 1. CYHOEDDIAD

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i'r Uwch Reolwr Cyllid, a oedd yn mynychu ei gyfarfod olaf o'r Pwyllgor hwn, am ei waith dros y blynyddoedd a dymuno ymddeoliad braf iddo.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2016, fel rhai cywir.

## 4. DATGANIAD O GYFRIFON 2015/16

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan yr Uwch Reolwr Cyllid. Tynnwyd sylw mai cyfrifon drafft heb eu harchwilio a gyflwynir yma er gwybodaeth, gyda'r fersiwn terfynol i'w gyflwyno er cymeradwyaeth y Pwyllgor yng nghyfarfod 29 Medi 2016. Manylwyd ar eu cynnwys ac ymatebwyd i ymholiadau cyffredinol yr aelodau. Adroddwyd bod cyfrifon 2013/14 wedi derbyn oddeutu 800 o ymweliadau ar y wefan a bod nifer o ymweliadau yng nghyswllt cyfrifon 2014/15 wedi cynyddu i oddeutu 900.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod parthed rhagolygon o ran grantiau yn dilyn penderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd yn dilyn y refferendwm a gynhaliwyd ar 23 Mehefin, nododd y Pennaeth Cyllid bod Pennaeth Adran Economi a Chymuned yn edrych ar y mater o ran grantiau o Ewrop ac mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd na ellir rhagweld beth ddigwyddith o ganlyniad i'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd a bod nifer o ffactorau yn effeithio ar yr economi.

Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd yr Uwch Reolwr Cyllid bod y tîm o gwmni Deloitte, oedd yn cynnal yr archwiliad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn cyd-weithio'n dda efo'r swyddogion Cyllid.

Diolchwyd i holl staff y Cyngor sydd ynghlwm â pharatoi'r cyfrifon am eu gwaith caled a manwl.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2015/16.**

## 5. RHEOLAETH TRYSORLYS 2015/16

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Rheolwr Buddsoddi ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor yn ystod 2015/16, yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd am y flwyddyn ariannol honno. Manylwyd ar y cefndir economaidd, y gofyn benthyca a rheoli dyledion, gweithgarwch buddsoddi a chydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus.

Tynnwyd sylw bod angen cywiro paragraff cyntaf yr adroddiad yn y fersiwn Gymraeg i nodi fod cyfanswm y llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau yn llai na'r amcan ffigwr gwreiddiol yn y gyllideb.

Adroddwyd bod y Cyngor wedi adennill 98% o'i fuddsoddiadau ym manc Heritable a rhagwelir derbyn dosraniadau pellach. Nodwyd yn gyson â'r hyn adroddwyd ers 2008, fe ddylid adennill y swm llawn, ond nid yw'r amseriad wedi ei gadarnhau gan ei fod yn ddibynnol ar ganlyniad achos llys sy'n parhau.

Cadarnhaodd y Rheolwr Buddsoddi bu gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd.

Mewn ymateb i gwestiwn parthed llog ar fenthyciadau hanesyddol, nododd y Pennaeth Cyllid yr asesir y sefyllfa o ran benthyciadau hanesyddol yn barhaus. Eglurodd bod premiwm (cosb) adbryniant yn gallu bod yn fwy na'r buddiant o'u terfynu, a bod y benthyciadau hŷn gyda llog uwch yn dod i ben yn raddol. Tynnodd y Rheolwr Buddsoddi sylw mai 5.4% oedd cyfradd cyfartaledd llog benthyciadau'r Cyngor erbyn hyn, gan fod rhai o'r benthyciadau hanesyddol wedi eu had-dalu.

Holodd aelod os derbyniwyd llog ar yr arian ym Manc Heritable, ynteu ond yr arian a fuddsoddwyd. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Buddsoddi y gwnaed hawliad am y llog perthnasol i'r cyfnod dyledus cyn i'r banc fethdalu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 6. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 1/4/16 – 30/6/16

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod. Nodwyd bod 14 adroddiad am archwiliadau o'r cynllun gweithredol wedi ei gwblhau, 1 archwiliad o gynllun archwilio 2015/16 a 4 archwiliad dilyniant.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol.

Cyfeiriodd aelod at archwiliadau diogelwch gwybodaeth mewn ysgolion cynradd gan nodi bod 4 pwynt bwled yr un fath ar gyfer yr ysgolion â'i fod yn rhagdybio bod hyn yn wir ar gyfer bob ysgol yng Ngwynedd. Nododd ei siomedigaeth nad oedd y camau wedi eu cymryd yn barod gan yr Adran Addysg.

Mewn ymateb i sylw gan aelod y dylai ysgolion ddefnyddio llarpiwr yn hytrach na defnyddio sachau dinistrio data, nododd y Rheolwr Archwilio ei fod yn fater i'r ysgol unigol benderfynu ar y ffordd ymlaen ond mi fyddai o bosib yn well defnyddio llarpiwr.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2016 i 30 Mehefin 2016 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**7. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2016/17**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2016/17.

Adroddwyd bod yr Uned Archwilio Mewnol wedi rhagori targed chwarter 1 gyda 14 adroddiad terfynol wedi ei rhyddhau, sef 17.5% o archwiliadau'r cynllun o gymharu â'r targed o 8%.

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, nododd y Rheolwr Archwilio y cynhelir archwiliad ar drefniadau'r Uned Iechyd Anifeiliaid o fewn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar gais y Pennaeth Rheoleiddio i edrych os gellir cynnal y gwasanaeth a ddarperir yn bresennol yn dilyn lleihad yn y gyllideb. Pwysleisiodd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg mai ymgymryd ag adolygiad o'r trefniadau o fewn yr Adran Rheoleiddio y byddai Archwilio Mewnol yn ei wneud, nid cynnal profion iechyd anifeiliaid.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2016/17.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.40am

___________________________

**CADEIRYDD**